**Lynette Lovell**
**Cyfarwyddwr Addysg a Phlant**
**Director of Education and Children**

**Atebwch os gwelwch yn dda /Please reply to:**
Gwasanaeth Ysgolion **/** Schools Service
Cyngor Sir Powys / Powys County Council
Neuadd y Sir / County Hall
Llandrindod Wells
Powys LD1 5LG

*Os yn galw gofynnwch am / If calling please ask for*

*Ffôn / Tel:* 01597 826547
*Ffacs / Fax:*
*Ffôn symudol / Mobile:*
*E-bost / Email:* Lynette.Lovell@powys.gov.uk
*Eich cyf / Your ref:*
*Ein cyf / Our ref:*
*Dyddiad / Date:*

Annwyl riant/gofalwr,

Gobeithio bod eich plentyn wedi cael dychweliad esmwyth i'r ysgol ac yn setlo i'r tymor newydd.

Er mwyn i ni gefnogi gweithlu addysgol Powys ymhellach, roeddwn am ail bwysleisio i'r holl rieni a gofalwyr nad ydym yn derbyn trais geiriol a chorfforol fel rhan anochel o'n gwasanaeth.

Mae ein hysgolion yn croesawu ymwelwyr yn rheolaidd a'u nod yw sicrhau eu bod yn parhau i fod yn llefydd diogel i ddysgwyr, staff a holl aelodau eraill ein cymuned. Os oes gan riant/gofalwr bryderon, bydd ein hysgolion bob amser yn gwrando arnynt ac yn ceisio mynd i'r afael â nhw.

Fodd bynnag, ni fydd ymddygiad ymosodol, bygythiol neu dreisgar yn cael ei oddef. Os bydd ymddygiad o'r fath yn digwydd, mae ysgolion yn cael eu cyfarwyddo i ddilyn canllawiau Cyngor Sir Powys.

Gofynnir i bob aelod o staff roi gwybod i Gyngor Sir Powys am bob digwyddiad er mwyn i ni allu monitro ymddygiad yn agos.

Mae gan bob ysgol bolisi ar gyfer ymddygiad disgwyliedig rhieni, gofalwyr neu ymwelwyr â'r ysgol fel rhan o'r cytundeb partneriaeth cartref/ysgol sy'n amlinellu'r ymddygiad a ddisgwylir gan rieni/gofalwyr neu ymwelwyr ar y safle a'r gweithdrefnau a ddilynir pan fydd yr ysgol yn dymuno cyfyngu ar fynediad rhiant i'r ysgol.

Diolchwn i chi am eich cefnogaeth barhaus i'n galluogi i wneud popeth o fewn ein gallu i ddarparu'r addysg orau bosibl i bobl ifanc Powys.

Yn gywir

**Lynette Lovell**
**Cyfarwyddwr Addysg a Phlant**
**Director of Education and Children**

**Georgie Bevan**
**Pennaeth Addysg**
**Head of Education**